# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 18fed o Fedi 2017 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Arwel Pierce, Simon Jones, Peter Parker

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Alan H. Jones

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 17 Gorffennaf 2017

Trafodwyd y cynnig i osod mast ar y cae chwarae. Cafwyd wybod mai 15 medr fyddai uchder y mast a byddai'r Cyngor yn parhau i fod yn berchen ar y tir, gyda'r cwmni yn prydlesu'r tir gan y Cyngor, a'i is-lesu i gwmni Vodafone. Nid oedd gwybodaeth wedi ei dderbyn parthed cyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r datblygwr.

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y cofnodion, gyda'r Cynghorydd Arwel Pierce yn cynnig ar Cynghorydd Bethan Lawton yn eilio'r cynnig.
I ofyn i'r datblygwr sydd yn dymuno gosod mast ar y cae chwarae i gyfarfod y Cyngor, gyda'r Cyngor i fod yn hyblyg o ran amser a dyddiad.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101564 | £333.08 |
| Cyllid a Thollau | Yswiriant Gwladol | 101565 | £83.40 |
| Dŵr Cymru | Dŵr | 101566 | £79.35 |
| Cyngor Gwynedd | Costau Etholiad | 101567 | £134.00 |
| Y Ganolfan | Llogi Ystafell | 101568 | £24.00 |
| Richard Jones Evans | Bwrdd picnic | 101569 | £174.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

5. Cyfethol aelodau:

Yr oedd un cais am gyfetholiad wedi ei dderbyn.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn cais Ieuan Thomas.

6. Trafod creu ffilm hanesyddol sydd yn cyfweld trigolion Bryncrug:

Adroddodd y Clerc bod llythyr wedi ei anfon at Olygydd y Dail.

**PENDERFYNIAD:**
I gyflwyno apêl am hen luniau o'r pentref yn y Cambrian News.
I gyflwyno cais am arian gan Gronfa y Loteri Genedlaethol.

7. Cyngor Gwynedd - Toiled Cyhoeddus Bryncrug:

**PENDERFYNIAD:** I barhau i gyfrannu £2,000 yn 2018 tuag at toiled Bryncrug er mwyn cadw'r cyfleuster ar agor ar gyfer trigolion y pentref ac ymwelwyr. I ysgrifennu at Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn i'r Cyngor wella'r cyfleusterau er enghraifft gosod sinc.

8. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn - Adroddiad yr Arolygydd o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth gan nad yw Bryncrug o fewn ffiniau datblygu Cyngor Gwynedd.

9. Cyngor Gwynedd - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - Tai gwag ym mhentref Bryncrug:

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu llythyr at y Gwasanaeth Tai er mwyn i'w hysbysu mai annedd yw Eglwys Fatthew, gan hefyd ddweud bod llwybr cyhoeddus ger 3 Glandwr.

10. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Maeshyfryd, Bryncrug (NP5/55/317):

**PENDERFYNIAD:**
Dim gwrthwynebiad, y Cyngor yn croesawu'r datblygiad o uwchraddio'r tai.
I gysylltu gyda Mr Arfon Hughes er mwyn cynnal ymgynghoriad o fewn y pentref gan ofyn i drigolion lleol eu barn am yr angen i godi tai newydd

11. Llywodraeth Cymru - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth - Pont Newydd dros yr Afon Dyfi, Machynlleth:

**PENDERFYNIAD:** I ystyried y cynllun yng nghyfarfod mis Hydref 2017 ar ôl i Gynghorwyr fynychu sesiynau gwybodaeth yn y Plas, Machynlleth ar y 3ydd a 4ydd o Hydref.

12. Dail Dysynni - llythyr o ddiolch:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

13. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nodwyd y canlynol:
-Bod Mr David Owen wedi dechrau fel tirmon i'r clwb pêl-droed, gan lanhau y Pafiliwn a chodi 'sbwriel
-Y Pafiliwn angen ei baentio
-Arian wedi ei dderbyn gan y clwb pêl-droed
-Y clwb pêl-droed wedi penderfynu derbyn cyfrifoldeb dros brynu trydan i'r Pafiliwn

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y wybodaeth uchod.
I anfon llythyr at Mr David Owen er mwyn diolch iddo am ofalu am godi ysbwriel o'r cae chwarae ac egluro bod y Cyngor yn ymwybodol o'i ddiddordeb i dorri gwair y cae chwarae, gan hefyd mynegi dymuniad y Cyngor iddo fedru cydweithio gyda contractwr y Cyngor a'r Cynghorydd Alan H. Jones.

14. Cae Chwarae - Biniau Ailgylchu:

**PENDERFYNIAD:** I ystyried derbyn gwasanaeth ailgylchu gwastraff yng nghyfarfod mis Hydref 2017 gan nad oes manylion ynglŷn a'r gost wedi ei dderbyn gan gwmni Grays Waste na Chyngor Gwynedd.

15. Cae Chwarae - Trefniadau torri gwair yn 2018:

**PENDERFYNIAD:** I ystyried yng nghyfarfod mis Hydref 2017.

16. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Cafwyd adroddiad cryno gan y Cynghorydd Bethan Lawton ar gyfarfod gyda Pheiriannydd Ardal Meirionnydd, gyda gwybodaeth am archwiliad ffordd ger Maeshyfryd a manylion torri gwair ar y llwybr rhwng Bryncrug a Thywyn.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth gan y Cynghorydd Sir.

17. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Bu i Gynghorydd adrodd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi clirio graean o'r afon sydd y tu ôl i'r toiledau cyhoeddus er mwyn lleihau llifogydd. Yr oedd tyllau ar y ffordd hefyd wedi eu cau rhag ofn y byddai llif o'r afon.

Adroddwyd bod tŷ ger Ystâd Groesffordd, wedi torri sietyn a'i daflu ar y llwybr cerdded.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at Cyngor Gwynedd er mwyn eu hysbysu o'r unigolion sydd wedi taflu gweddillion coed.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:20pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................